Mawrth 2026

PSAG

Grŵp Gweithredu ar Sgamiau Pensiynau

Cydweithredu yn erbyn sgamiau pensiynau

# Camau i gadw'n ddiogel rhag sgamiau

**Mae sgamwyr yn edrych yn broffesiynol** ac mae'n dod yn gynyddol anoddach i weld y gwahaniaeth rhwng rhywbeth sy'n gyfreithlon a rhywbeth sy'n dwyllodrus.

Mae'r**Grŵp Gweithredu ar Sgamiau Pensiynau**wedi rhoi rhestr wirio at ei gilydd i fynd drwyddi pe bae rhywun yn cysylltu â chi am eich pensiwn.

**Eich pensiwnyw eich dyfodo cadwch ef yn ddiogel**

The Pensions Regulator | Department for Work & Pensions | FCA Financial Conduct Authority | HM Treasury | Money & Pensions Service | NECC National Economic Crime Centre | PSIG Pension Scams Industry Group

CAM 1

## Ydy'r cynnig yn annisgwyl?

Mae darparwyr pensiynau dilys yn hynod o annhebygol o gysylltu â chi yn hollol annisgwyl am eich pensiwn. Mae galwadau diwahoddiad yn anghyfreithlon ac felly maent yn debygol o fod yn dwyllodrus. Byddwch yn wyliadwrus o gynigion adolygu pensiynau am ddim a/neu addewidion o enillion uchel neu wedi eu gwarantu.

CAM 2

## Ydych chi wedi gwirio â phwy rydych yn delio â nhw?

Defnyddiwch Wiriwr Cwmnïau yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) i wirio'n gyflym bod unrhyw un sy'n cynnig cyngor neu wasanaethau i chi:

- wedi ei awdurdodi gan yr FCA
- â darparu'r gwasanaeth rydych eisiau

Mae'r erfyn hawdd i'w ddefnyddio hwn wedi ei gynllunio i helpu defnyddwyr fel chi aros yn ddiogel. Yn y DU, mae bron pob cwmni ariannol gael ei awdurdodi neu ei gofrestru gan yr FCA. Er na fydd yn tynnu pob risg, bydd defnyddio cwmni sydd wedi ei awdurdodi â'r caniatadau cywir yn lleihau'r risg o niwed i chi yn sylweddol.

**Awgrym:** Caiff cwmni sy'n cymryd arno fod yn gwmni sydd wedi ei awdurdodi ei adnabod fel 'cwmni clôn' a gallai fod ganddo wefan sy'n edrych yn union yr un fath â'r un go iawn. Defnyddiwch y manylion cyswllt cwmni cyfreithlon a roddwyd gan y Gwiriwr Cwmnïau bob tro a helpwch osgoi sgamiau

Gwefan: **fca.org.uk/firm-checker** Ffôn: **0800 111 67 68**

CAM 3

## Stopiwch a meddyliwch – ydych chi'n cael eich rhuthro neu'n cael pwysau ei roi arnoch chi?

Mae cael pwysau wedi eu rhoi arnoch chi i weithredu'n gyflym neu byddwch chi'n colli allan yn aml yn arwydd o rybudd o sgam. Os ydych chi'n teimlo bod pwysau'n cael eu rhoi arnoch chi, cymerwch eich amser i wirio popeth rydych chi ei angen a chofiwch, os yw rhywbeth yn swnio'n rhy dda i fod yn wir, yna mae'n debyg ei fod o.

CAM 4

## Dylech chi chwilio am gyngor diduedd?

**HelpwrArian**
Gwybodaeth ac arweiniad diduedd ac am ddim ar gael ar-lein, dros y ffôn a thrwy sgwrsio ar y we.

Gwefan: **Moneyhelper.org.uk** Ffôn: **0800 011 3797**

**Ymgynghorwyr ariannol**
Os gallwch chi, mae'n syniad da buddsoddi mewn ymgynghorydd ariannol. Yn aml mae symiau mawr o arian yn y fantol a byddan nhw'n gallu eich helpu i wneud y penderfyniad iawn i chi. **Awgrym:** gwiriwch fod unrhyw ymgynghorydd rydych chi'n ei ddewis wedi ei reoleiddio gan yr FCA.

**Stopiwch! Meddyliwch am Dwyll**
Dysgwch fwy am sut i adnabod ac osgoi sgamiau

Gwefan: **stopthinkfraud.campaign.gov.uk**

**Os ydych chi'n amau sgam, adroddwch amdano i Report Fraud**
Gwefan: **Reportfraud.police.uk/contact-us**
Ffôn: **0300 123 2040** Yn yr Alban, ffoniwch **101**.